



Eich cyf/Your ref P-04-627
Ein cyf/Our ref EH/02083/15

William Powell AC

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

19 Mai 2015

Annwyl William

Diolch am eich llythyr dyddiedig 23 Ebrill yn amgáu sylwadau pellach gan y deisebwr ynghylch gwasanaethau trenau gwell i gymudwyr yng Ngogledd Cymru.

Mae patrwm y gwasanaethau cymudo ar gyfer Gogledd Cymru, gan gynnwys Bangor, yn canolbwyntio ar deithio i'r dwyrain yn y bore a'r gorllewin gyda'r nos, gan adlewyrchu y galw gan deithwyr. Er hynny, mae opsiynau teithio ar gael hefyd i deithwyr i'r ddau gyfeiriad.

Mae gwasanaethau cymudo yn y bore o Fangor i'r gorllewin yn cynnwys trenau sy'n cyrraedd am 0705, 0721, 0752, 0842, 0921 a'r 1000, tra bo trenau sy'n cyrraedd o'r dwyrain yn cynnwys y 0749, 0837 a'r 1007. Mae gwasanaethau cymudo gyda'r nos o Fangor i'r gorllewin yn cynnwys trenau sy'n gadael am 1643, 1737 a 1845, tra bo trenau sy'n gadael i'r dwyrain yn cynnwys y 1623, 1718 a'r 1809.

Mae fy swyddogion wedi edrych ar yr wybodeth ddiweddaraf ynghylch nifer y teithwyr ar y llwybrau hyn, ac nid oes unrhyw dystiolaeth o orlenwi ar wasanaethau Trenau Arriva Cymru, er mae'n bosib bod adegau pan fydd hyn yn digwydd, megis pan fydd tarfu ar y gwasanaeth.

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau ychwanegol ac mewn capasiti ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n cynnwys manteision i gymudwyr. Roedd y fasnachfrait wreiddiol a osodwyd gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn 2003 yn nodi un ar bymtheg o wasanaethau ym mhob cyfeiriad yn ystod yr wythnos rhwng Bangor a Chyffordd Llandudno, ac mae Trenau Arriva Cymru yn darparu pedwar ar bymtheg ar hyn o bryd.

Fel a nodwyd gennyf eisoes, bu nifer o welliannau i'r amserlen yn ddiweddar sydd hefyd wedi gwella'r ddarpariaeth gyffredinol o ran capasiti trenau yng Ngogledd Cymru. O ran y capasiti ychwanegol a ddarperir drwy gyflwyno'r gwasanaeth cerbydau sy'n cael eu tynnu, ni chaiff hyn ei gyfyngu i'r gwasanaethau hynny yn unig, ond mae hefyd wedi galluogi i drenau hwy gael eu defnyddio ar bedwar ar ddeg o wasanaethau eraill, trwy ddefnyddio cerbydau ychwanegol.

Rwy'n deall y bydd y rhanddeiliaid yn dymuno gweld rhagor o welliannau i'r gwasanaethau. Byddaf yn parhau i'w hystyried, ond bydd yn rhaid imi wrth gwrs ystyried y gyllideb ac, yn gynyddol, y prinder trenau ar hyn o bryd.

Rydym yn cysylltu â grwpiau defnyddwyr eraill ynghylch eu safbwynt am welliannau pellach, yn enwedig o ran nodi y fasnachfrait nesaf ar gyfer Cymru a'r Gororau a moderneiddio rhwydwaith Gogledd Cymru.

Cafodd Astudiaeth Llwybrau Cymru gan Network Rail ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill. Mae hyn yn nodi'r gwelliannau posibl i'r seilwaith yng Ngogledd Cymru yn ystod Cyfnod Rheoli 6 (2019-2024) gan gynnwys moderneiddio prif reilffordd Arfordir Gogledd Cymru a gwella amseroedd teithio. Daw yr ymgynghoriad i ben ar 9 Mehefin. Rydym yn cydweithio â Network Rail a'r Adran Drafnidiaeth i ddatblygu achos ar gyfer y cynlluniau hyn.

Edwina Hart